# Dydd Iau Chwaraeon – Mererid Hopwood

| GAIR / YMADRODD | DIFFINIAD / YSTYR |
|---|---|
| **bola (‘mola)** | bol (fy mol) |
| **newyn** | prinder bwyd difrifol |
| **cryndod** | ias; y weithred o grynu |
| **cintach** | cwynion |
| **corwynt** | storm ddinistriol (*hurricane*) |
| **gwacter** | y cyflwr o fod yn wag |

# Chwaraeon – Mari Lövgreen

| GAIR / YMADRODD | DIFFINIAD / YSTYR |
|---|---|
| **diog** | ddim am weithio neu ymdrechu |
| **i'm** | i ddim ('Does gen i ddim awydd neidio') |
| **awydd** | dymuniad cryf, chwant neu whant (*desire*) |
| **'deud gwir'** | 'a dweud y gwir' |
| **swsian** | cusanu |
| **chydig** | ychydig, tamaid bach |

# Ewro 2016 – Llion Jones

| GAIR / YMADRODD | DIFFINIAD / YSTYR |
|---|---|
| **ger** | wrth ymyl, yn agos at |
| **loes** | poen, dolur |
| **einioes** | bywyd person |
| **trawstiau** | y pyst sydd ar draws top y gôliau pêl droed (*crossbars* |
| **ffawd** | rhyw allu y tu hwnt i'n rheolaeth ni sy'n trefnu cwrs ein bywyd (*destiny*, *fate*, *fortune*) |
| **'llaw ffawd'** | Mae hwn yn cyfeirio at ddigwyddiad enwog mewn gêm bêl droed rhwng Cymru a'r Alban ym 1977 pan lawiodd Joe Jordan (ymosodwr yr Alban) y bêl yng nghwrt cosbi Cymru. Credai'r dyfarnwr mai David Jones (amddiffynwr Cymru) a lawiodd y bêl ac fe ddyfarnwyd cic o'r smotyn i'r Alban. Sgoriodd yr Alban gan fynd ymlaen i ennill y gêm. Canlyniad hwn oedd mai'r Alban, nid Cymru, a gyrhaeddodd rowndiau terfynol Cwpan y Byd yn yr Ariannin ym 1978. |
| **dryllio** | torri'n ddarnau mân, chwalu |
| **dragywydd** | yn digwydd o hyd ac o hyd, ar hyd yr oesau |
| **hesb** | sych, diffrwyth |
| **'Cymru fu'** | Cymru'r gorffennol |
| **cyniwair** | crynhoi, dod at ei gilydd |
| **'Cymru Fydd'** | Cymru'r dyfodol |
| **'ar y gorwel'** | yn agosáu ('*on the horizon*') |
| **'ciliwch'** | ewch yn ôl |
| **torcalon** | tristwch mawr (*heartbreak*) |

# Cân Shane (Detholiad) – Myrddin ap Dafydd

| GAIR / YMADRODD | DIFFINIAD / YSTYR |
|---|---|
| **culhau** | mynd yn fwy cul |
| **llumanau** | baneri bach |
| **penstiff** | ystyfnig |
| **diawl** | diafol |
| **ennyd** | ysbaid o amser (*instant*) |
| **llam** | naid |
| **(a) droith** | (a) fydd yn troi |
| **'dio'm yna** | nid yw o (ef) yna |
| **ystlys** | ymyl y cae (*touchline*) |
| **(a) diclith** | (a) fydd yn ticlo |
| **gwalch** | aderyn ysglyfaethus; bachgen drygionus |
| **gwŷr** | dynion |
| **acer** | erw |
| **sgwarnog** | ysgyfarnog |
| **lled ewin o dir** | darn o dir sydd yr un lled ag ewin bys |
| **'mond** | dim ond |

# Hillsborough, 1989 – Alan Llwyd

| GAIR | DIFFINIAD / YSTYR |
|---|---|
| **disgwyliem** | yr oeddem wedi disgwyl gweld |
| **penawdau** | y geiriau sydd uwchben adroddiadau papur newydd ac sy'n tynnu sylw at brif bwyntiau'r stori (*headlines*) |
| **brwdfrydig** | brwd, llawn brwdfrydedd (*enthusiaistic*) |
| **mynegi** | dangos drwy air neu weithred (*express*) |
| **gorfoledd** | llawenydd mawr |
| **buddugoliaeth** | canlyniad ennill |
| **y tîm a ddilynent** | y tîm yr oedden' nhw'n ei ddilyn |
| **achlysur** | digwyddiad |
| **crochleisio** | gweiddi a chanu'n groch, gweiddi a chanu'n swnllyd |
| **arch** | math o gist i gario corff rhwyun sydd wedi marw |